

Adroddiad Arbennig wedi ei gyhoeddi o dan a22 o
Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus
(Cymru) 2005 yn dilyn cwyn gan Mr D yn erbyn
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Adroddiad gan
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
Achos: 201708129

Cynnwys

Tudalen

Cyflwyniad	1
Crynodeb	2
Fy Awdurdodaeth	4
Y Cefndir	4
Gweithredu'r Argymhellion	5
Tystiolaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	7
Dadansoddiad a Chasgliadau	9
Argymhellion Pellach	11

Cyflwyniad

Cyhoeddir yr adroddiad hwn o dan adran 22 o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 ("y Ddeddf").

Yn unol â darpariaethau'r Ddeddf, mae'r adroddiad yn ddienw er mwyn sicrhau, hyd y bo modd, bod unrhyw fanylion a allai olygu bod modd adnabod unigolion wedi cael eu newid neu eu hepgor. Mae'r adroddiad felly'n cyfeirio at yr achwynydd fel Mr D ac i unrhyw aelod o staff Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wrth eu swyddogaeth.

Crynodeb

Roedd Mr D wedi cysylltu eisoes (yn 2014, 2015 a 2016) gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (“y Cyngor”) am wallau yn y Gymraeg yn y wybodaeth a’r biliau Treth Cyngor a dderbyniwyd ganddo. Yn 2017, ar ôl derbyn bil yn cynnwys camgymeriadau ieithyddol eto, cwynodd Mr D’n ffurfiol at y Cyngor ac wedyn at yr Ombwdsmon. Tybiodd yr Ombwdsmon y gallai ddatrys yr anghydfod drwy ddefnyddio’i bwerau sy’n caniatáu datrysiad cynnar, yn hytrach nag ymchwiliad llawn, o dan a3 o’r Ddeddf. I’r perwyl hyn, ar y 3 Hydref 2017, cytunodd y Cyngor yn ffurfiol i ymddiheuro i Mr D yn ysgrifenedig am y diffygion yn y Gymraeg, i dalu iawndal iddo o £50 am ei drafferthion, a rhoi sicrhad y byddai’r gwallau yn cael eu cywiro mewn pryd ar gyfer cyfnod bilio 2018/2019 (os nad yn gynt).

Derbyniodd Mr D y bil am 2018/2019 ym mis Mawrth 2018. Gwelodd fod yna eto nifer o wallau yn y Gymraeg (ac anghysondeb yn y ddogfen rhwng y Gymraeg a’r Saesneg). Fe gwynodd at yr Ombwdsmon bod y Cyngor wedi methu a chydymffurfio gyda’i argymhellion wedi’r cwbl, ac yn arwydd “o ddifaterwch tuag at drethdalwyr, y Gymraeg, y gyfraith a’r Ombwdsmon”.

Wrth weld y dystiolaeth, penderfynodd yr Ombwdsmon nad oedd yn fodlon bod y Cyngor wedi gweithredu’r argymhellion yn llawn fel y cytunwyd. Penderfynodd bod yn ofynnol arno i erfyn ei bwerau i gyhoeddi adroddiad arbennig er mwyn cyfleu’r neges at gyrff cyhoeddus bod datrysiadau cynnar o dan y Ddeddf yn faterion ffurfiol. Mae’n ofynnol ar gyrff i gydymffurfio â hwy wedi cytuno. Roedd yr adroddiad yn feirniadol o fethiant y Cyngor i weithredu’r argymhellion yn eu cyfanrwydd er i’r Cyngor gytuno’n ffurfiol i wneud hynny, a’i fod ond yn awr yn gweithio i wneud y newidiadau perthnasol ar gyfer y flwyddyn dreth nesaf. Gan fod y Cyngor yn defnyddio’r un gyfundrefn ar gyfer hysbysebion Budd-daliadau Tai, nid oedd yr Ombwdsmon yn hyderus o ran eu cywirdeb chwaith. Felly, fe wnaeth yr Ombwdsmon yr argymhellion pellach, fel a ganlyn, a chytunodd y Cyngor i’w gweithredu:

- (a) Danfon ymddiheuriad ysgrifenedig eto at Mr D am yr oedi parhaus i gywiro’r gwallau ieithyddol yn y ddogfen Treth Cyngor (o fewn un mis);

- (b) Cynnig iawndal o £100 iddo am yr anghyfiawnder achoswyd iddo ac am ei drafferth wrth orfod codi'r mater eto gyda'r Ombwdsmon (o fewn un mis);
- (c) Creu proses ysgrifenedig ynghylch y weithdrefn mae'r Cyngor wedi datgan sydd yn ddefnydd ganddo wrth gynhyrchu'r Hysbysiad blynyddol (o fewn tri mis);
- (ch) Sicrhad y Prif Weithredwr, yn ysgrifenedig, y byddai holl ddogfennau'r Cyngor ynghylch Treth Cyngor, a Budd-daliadau Tai, yn cael eu gyrru at bartneriaid cyfieithu'r Cyngor i'w hadolygu (a chywiro fel bod angen). Dylid cwblhau'r dasg cyn eu cyflwyno i'r systemau meddalwedd ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf (2019/2020) mewn perthynas â'r Dreth Cyngor, ac erbyn y flwyddyn wedyn (2020/2021) ar gyfer Budd-daliadau Tai.
- (d) Yn y cyfamser, creu Hysbysiad Treth Cyngor unigol cywir (fel y gwnaethpwyd ar gyfer Mr D) i unrhyw unigolyn arall sydd yn gofyn amdano yn y Gymraeg (fel y bydd angen, yn ôl y gofyn, cyn mis Chwefror 2019).

Fy Awdurdodaeth

1. O dan amodau'r Ddeddf, yn unol ag a3, gallaf gymryd unrhyw gam rwy'n credu sy'n briodol i ddatrys cwyn yn hytrach nai hymchwilio'n llawn. Gall hyn gynnwys cytuno gyda chorff cyhoeddus y byddai'n cymryd camau perthnasol oddi fewn amser penodol. Lle nad wyf yn fodlon bod y corff o dan sylw wedi cwblhau'r gweithredoedd y cytunodd yn glir iddynt, oddi fewn yr amser a benodwyd, gallaf ryddhau adroddiad arbennig o dan a22(6) o'r Ddeddf.

Y Cefndir

2. Cwynodd Mr D ataf yn wreiddiol ym mis Medi 2017 ar ôl derbyn Hysbysiad Treth Cyngor yn cynnwys gwallau yn y Gymraeg am y bedwaredd flwyddyn yn olynol. Dywedodd ei fod wedi rhoi cyfle i'r Cyngor ddatrys y mater yn 2014 ar ôl ei hysbysu drwy neges trydar, ac eto yn 2015 drwy alwad ffôn. Ar ôl derbyn dogfen wallus eto yn 2016, fe wnaeth gwyno'n ffurfiol at y Cyngor a, dywedodd Mr D, derbyn cytundeb y byddai'r Cyngor yn cywiro'r camgymeriadau erbyn y flwyddyn olynol. Pan dderbyniodd yr Hysbysiad am 2017/2018, a oedd eto'n wallus, fe gwynodd ataf i.

3. Derbyniodd fy swyddog dirprwyedig ar y pryd sylwadau'r Cyngor yn ymddiheuro am y gwallau, ac fe esboniwyd iddo pam nad oedd yn bosib cywiro'r biliau yn syth. Dywedwyd bod y Cyngor yn comisiynu cwmni allanol i gynhyrchu'r biliau papur ac mai dim ond unwaith y flwyddyn y gwnaethpwyd hyn. Rhoddwyd sicrwydd y byddai'r Cyngor yn mynd i afael â'r sefyllfa ac yn cywiro'r biliau mewn da bryd i'w rhyddhau ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018/2019.

4. Ar sail y dystiolaeth hon, ac o fewn yr awdurdodiad a ddirprwywyd iddo, fe gytunodd fy swyddog ddatrysiad cynnar o gwyn Mr D.¹ Ysgrifennodd at Brif Weithredwr y Cyngor, ar **3 Hydref 2017**, i gytuno'r canlynol yn ffurfiol, o dan a3 o'r Ddeddf, lle byddai'r Cyngor yn:

- (a) Cyhoeddi ymddiheuriad ffurfiol i Mr D yn amlinellu sut y cododd y mater hwn

¹ Achos 201703481

- (b) Rhoi sicrhad y bydd y gwallau yn cael ei chywiro mewn pryd ar gyfer cyfnod bilio 2018/2019, a pham nad yw'n bosibl gwneud y gwelliant hwn tan yr amser hynny
- (c) Cynnig taliad iawndal trwy siec o £50 i Mr D.

Gweithredu'r Argymhellion

5. Yn **Hydref 2017**, derbyniodd Mr D lythyr ymddiheuriad gan y Cyngor (yn y Gymraeg) yn datgan y byddai'r Cyngor yn mynd ati i gywiro'r biliau. Roedd y llythyr ymddiheuriad (dyddiedig 4 Hydref 2017) yn cynnwys yr un rhesymeg dros y gwallau Cymraeg a ddatganwyd wrth fy swyddog (gweler isod).
6. Yn y llythyr dywedodd y Rheolwr uned Treth Cyngor ("y Rheolwr") bod yr hysbysebion yn cael eu cynhyrchu gan gwmni argraffu allanol, ond "ni sylwodd" ar y geiriau anghywir "ac felly ni ofynnwyd i'r cwmni newid eu templed bilio ar gyfer y dogfennau hyn". Aeth ymlaen i ddweud gan mai unwaith y flwyddyn y gellir newid y templed, y byddai hyn yn digwydd yn Chwefror 2018. I gloi, dywedodd y Cyngor y byddai'r camgymeriadau'n cael eu cywiro, a bod y Rheolwr "wedi rhoi sicrwydd personol y bydd y geiriad anghywir yn cael ei ddiwygio."
7. Cysylltodd Mr D eto ar y **28 Mawrth 2018**, gan gwyno ei fod newydd dderbyn Hysbysiad Treth Cyngor (yr Hysbysiad"), yn gofyn am daliad y flwyddyn 2018/2019, a'i fod eto'n llawn gwallau yn y Gymraeg, ac anghysondebau ieithyddol rhwng y Gymraeg a'r Saesneg. Dywedodd fod hyn yn groes i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ("y Mesur") ac i Safonau'r Gymraeg o dan y Mesur hwnnw, a bod Comisiynydd y Gymraeg eisoes wedi dyfarnu yn erbyn y Cyngor ar ôl ei hymchwiliad hi i fethiant y Cyngor i gydymffurfio.² Cyfeiriodd Mr D at y datrysiad cynnar uchod (a'i gwynion ers 2014) gan ddweud y bod, yn ei farn ef, gamweinyddu pellach ar ran y Cyngor a'i bod wedi "fy nghamarwain i dro ar ôl tro gydag addewidion y byddai'r biliau yn cael eu cywiro". Dywedodd bod y methiannau yn y ddogfen yn "golygu bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffurfiol na'r Saesneg". I orffen, dywedodd:

"...Yn dilyn... ymyrraeth yr Ombwdsmon yn 2017, mae camgymeriadau a methiannau yn parhau, gan adlewyrchu yn ddrwg

² Adroddiad ar ymchwiliad gan Gomisiynydd y Gymraeg (rhif CSG233) 31 Ionawr 2018

iawn ar yr Awdurdod wrth eu bod yn arwydd o ddifaterwch tuag at drethdalwyr, y Gymraeg, y gyfraith, a'r Ombwdsmon."

8. Ar ôl asesu cwyn pellach Mr D, ynghyd â'r dystiolaeth a ddanfonwyd ataf, cysylltodd fy Rheolwr Ymchwilio Cynorthwyol ("fy Swyddog") gyda'r Cyngor gan ofyn am ei sylwadau i'r gŵyn, ac i'w barn gychwynnol hi bod y dystiolaeth yn ei harwain at y casgliad nad oedd y Cyngor wedi cydymffurfio gyda chymal (b) o'r datrysiad cynnar uchod. Er rhoi sicrhad ysgrifenedig y byddai'r gwallau yn cael eu cywiro, nid oedd wedi cyflawni hynny yn ymarferol. Gofynnodd am esboniad y Cyngor, ac i'r honiad gael ei rannu gyda'r Rheolwr gan ei fod wedi rhoi ymrwymiad personol i sicrhau y byddai'r camgymeriadau yn cael eu cywiro.

9. Fe wnaeth fy Swyddog hefyd ddanfon at y Cyngor gopi o'r Hysbysiad gan amlygu'r gwallau a nodwyd ganddi, er nodi nad rhinwedd ei swydd hi, na fy swyddfa i, ydoedd prawf ddarllen yr Hysbysiad, nai gyfieithu, ar ran y Cyngor. Yn olaf, fe ofynnodd fy Swyddog am y wybodaeth ganlynol:

- "Pwy sydd yn gyfrifol am gynhyrchu'r Hysbysiad yn flynyddol?"
- Copi o unrhyw weithdrefn y Cyngor ynghylch cynhyrchu'r Hysbysiad yn flynyddol.
- Beth oedd y trefniant ynghylch cyfieithu'r deunydd ynddynt i'r Gymraeg?
- Beth yw gweithdrefnau'r Cyngor ynghylch prawf ddarllen a sicrhau cywirdeb y fersiwn Gymraeg?
- A wnaeth y Cyngor ddilyn y trefniadau uchod yn yr achos hwn ac os naddo pam?
- Os do, beth felly yw'ch esboniad am y gwallau sydd dal yn ymddangos yn yr Hysbysiad dan sylw er y cytundeb ffurfiol rhyngom fis Hydref diwethaf?"

Tystiolaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

10. Dywedodd y Cyngor (yn y sylwadau a ddanfonwyd at fy Swyddog ar **24 Mai**), fel dywedwyd eisoes, mai templed oedd yn cael ei ddiweddarau cyn anfon at gwmni argraffu allanol oedd sail yr Hysbysiad yn flynyddol. Yn 2017, wrth dderbyn fy nghynnig am ddatrysiad cynnar, derbyniodd y Cyngor ei fod wedi methu diweddarau'r templed yn y Gymraeg cyn ei ddanfon at yr argraffwyr. Roeddent hefyd o'r farn mai dim ond un gwall a ganfuwyd gan Mr D er y cytunwyd bod fy swyddog cychwynnol wedi cadarnhau bod yna sawl gwall cyfieithu arall. Dywedwyd, y bod y Cyngor wedi esbonio na allai'r rhain gael eu cywiro cyn y gwanwyn pan fyddai'r Hysbysiad ar gyfer 2018/2019 yn cael ei greu. Esboniwyd hyn hefyd yn y llythyr ymddiheuriad a ddanfonwyd at Mr D (gweler uchod).

11. Wrth ymateb, dywedwyd bod nifer o newidiadau wedi'i gwneud ers i Mr D gwyno yn gyntaf, a bod y Cyngor am sicrhau wrthyf "nad yw'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn fwriadol". Wrth edrych yn ôl at gŵyn Mr D yn 2017, dywedodd y Cyngor nad oedd "yn gwir werthfawrogi graddfa'r mater". Serch hynny, ar ôl ymyrraeth fy swyddfa yn 2017, dywedodd ei fod yn derbyn y dylai fod wedi danfon yr Hysbysiad at bartneriaid cyfieithu'r Cyngor i "ddarparu dadansoddiad manwl o ba gamau oedd eu hangen i wneud" i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Yn hytrach, dywedwyd bod y Cyngor wedi ymdrechu i gywiro'r materion a godwyd gan Mr D a fy swyddfa'n unig. Derbyniodd bod rhannau arall o'r Hysbysiad

"nad ydynt yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg... ac mae llawer o'r rhain bellach wedi eu hamlygu'n benodol gan swyddfa'r Ombwdsmon, er bod y Cyngor yn derbyn nad yw hyn yn rhan o rôl yr Ombwdsmon".

12. Yn ateb i'r cwestiynau a ofynnwyd gan fy Swyddog, fel uchod, dywedodd y Cyngor

- Y bod y Cyngor yn defnyddio cwmni allanol a bod data amrwd ar gyfer yr Hysbyseb yn cael ei gynhyrchu ar gyfer y meddalwedd yn Saesneg yn unig. Roedd y Cyngor yn gweithio gyda'r darparwyr meddalwedd i gynhyrchu cyfieithiad Cymraeg ar gyfer pob gair oddi fewn yr Hysbysiad. Roedd y Rheolwr yn goruchwyllo trefniadau cynhyrchu'r hysbysiadau.

- Nid oedd yna weithdrefn ffurfiol (ar gyfer cynhyrchu'r hysbysiadau). Yn gyffredinol y broses oedd bod y ffioedd blynyddol yn cael eu cymeradwyo gan y Cyngor ym mis Chwefror, a'r staff penodedig wedyn yn paratoi'r wybodaeth ariannol ar gyfer y gyfundrefn a ddarperir gan "Northgate".³ Roedd y ffeiliau yn cynnwys y data amrwd yn cael eu cyflwyno wedyn at bartneriaid meddalwedd y Cyngor ("Gandlake")⁴ i gynhyrchu dogfen sampl ac yna, wedi cymeradwyo hwn, roedd y Cyngor yn danfon popeth at bartneriaid argraffu'r Cyngor (cwmni allanol).
- Dywedwyd mai ffocws blynyddol y Cyngor oedd sicrhau cywirdeb y wybodaeth ariannol gan, fel arall, ni fyddai'r Hysbysiad yn ddilys na chyfreithlon. Pe byddai'r Cyngor wedi gwerthfawrogi graddfa'r gwallau Cymraeg byddai wedi danfon yr Hysbysiad at bartneriaid cyfieithu'r Cyngor (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy). Methodd wneud hynny, fel esboniwyd, am y rhesymau uchod.

13. Yn olaf, dywedodd y Cyngor ei fod yn derbyn y dylai fod wedi gwneud mwy yn yr achos yma i sicrhau bod yr Hysbysiad wedi'i gywiro'n ddigonol i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Dywedwyd bod y Rheolwr "yn gweithio gyda'r darparwyr meddalwedd ar hyn o bryd i ddarparu datrysiad parhaol i'r diffyg cyfieithu Cymraeg gyda system Northgate". Byddai hwn "yn brosiect ar raddfa fawr" ond dywedwyd y byddai'r Cyngor "yn ymdrechu i gael yr holl newidiadau angenrheidiol... mewn pryd ar gyfer y rhediad bilio 2019/2020". Yn y cyfamser, roedd y Cyngor wedi creu fersiwn dwyieithog unigol o'r Hysbysiad a'i ddanfon at Mr D. Fe'u danfonwyd hefyd at wyth aelod arall o'r cyhoedd a gysylltodd â'r Cyngor yn yr un fath a Mr D, ond oeddent hwy heb gwyno'n ffurfiol. Hefyd, cadarnhaodd y Cyngor bod pob dogfen Treth Cyngor arall a gyhoeddwyd (megis rhybudd atgoffa, gŵys ayb) wedi eu danfon at Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i'w hasesu a'u cyfieithu, fel a bod angen, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg.

³ Northgate - Cwmni sydd wedi creu meddalwedd ar gyfer nifer o awdurdodau cyhoeddus, ac yn benodol meddalwedd ar gyfer y system Fudd-daliadau Tai a Threth Cyngor.

⁴ Gandlake -Cwmni sydd wedi creu meddalwedd ar gyfer nifer o awdurdodau cyhoeddus yn symleiddio'r wybodaeth oddi fewn llythyron ynghylch budd-daliadau a gwybodaeth Treth Cyngor.

Dadansoddiad a Chasgliadau

14. Fe wnaeth y Cyngor dderbyn a chytuno i weithredu'r argymhellion yn y datrysiad cynnar o gwyn cyntaf Mr D ataf, ym mis Hydref 2017 (fel ym mharagraff 4 uchod). Er iddo weithredu dau ohonynt mae wedi methu, yn fy marn i, â chydymffurfio gydag un ohonynt. O ran Mr D, y cymal pwysicaf oll oedd yr ymrwymiad i gywiro'r gwallau Cymraeg yn yr Hysbysiad erbyn ei rhyddhau ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018/2019. Bu methiant llwyr i wneud hynny.

15. Yn ei ymateb, dywed y Cyngor iddo fethu a gwerthfawrogi maint y gwaith o ran sicrhau cywirdeb a'i fod wedi edrych ar y pwyntiau a godwyd gan Mr D (a fy swyddog cychwynnol i) yn unig. Nid yw hynny'n ddigonol gan nad pwrpas fy swyddogion i yw dadansoddi pob gwall ieithyddol yn yr Hysbysiad ac, i bob pwrpas, gweithredu fel cyfieithydd i'r Cyngor. Rwy'n falch bod y Cyngor nawr yn derbyn nad fy swyddogaeth i ydi hynny, na rôl fy swyddogion chwaith. Gallwn ddweud hefyd nad rôl aelod o'r cyhoedd ydyw amlygu pob gwall - mae'n ddigon iddynt nodi un. Gwaith y Cyngor ydyw i fynd ati i edrych yn fanwl ar y ddogfen briodol i sicrhau ei chywirdeb. Mae gan y Cyngor drefniadau ffurfiol ar gyfer cyfieithu dogfennau o'r fath, ac mae'n amlwg i mi ei fod wedi methu a'i ddefnyddio, heb unrhyw reswm derbyniol.

16. Yn fy marn i, esgus llwyr yw'r rhesymeg a roddwyd fel atebion i gwestiynau dilys fy Swyddog. Rhoddwyd digon o amser i'r Cyngor gysylltu gyda'i bartner cyfieithu - pum mis (o 3 Hydref 2017 - Chwefror 2018) i wirio'r wybodaeth gyffredinol oddi fewn yr Hysbysiad. Ni wnaethpwyd hynny. Wrth roi sylwadau pellach ar ddrafft o'r adroddiad yma, ailadrodd beth a nodwyd uchod ym mharagraff 15 wnaeth y Cyngor. Yn y cyswllt hyn, ychwanegodd nad oedd yn fwriadol wedi methu cywiro'r ddogfen lawn. Fel mae'r Cyngor yn cyfaddef, mae'n amlwg mai ffocws ariannol sydd gan y Cyngor (gweler paragraff 12 uchod). Rwy'n derbyn bod ariannu lleol yn bwysig ond mae'r un mor bwysig mabwysiadu ymarferion da yn weinyddol. O'r dystiolaeth rhoddwyd, mae'n amlwg fod gan y Cyngor nifer o bartneriaid yn ymwneud â'r gwaith o gynhyrchu'r Hysbysiad, ond eto fe ddywed nad oes ganddo broses ysgrifenedig neu weithdrefnau ffurfiol. Rwy'n sicr nad yw hyn wedi helpu yn yr achos yma.

17. Nodaf mai'r gyfundrefn "Northgate" a ddefnyddir gan y Cyngor (gweler paragraff 12) yw'r gyfundrefn a ddefnyddir hefyd ar gyfer gweinyddu'r system Fudd Daliadau Tai. Er nad oes cwyn cyfatebol wedi'i wneud ataf ynghylch yr hysbysiadau hynny, o weld natur a maint y gwallau yn yr achos yma, ynghyd â'r ffaith nad oes yna weithdrefnau ffurfiol yn bodoli, nid wyf yn hyderus o gwbl am gywirdeb yr hysbysiadau Budd-daliadau Tai a gaiff eu cynhyrchu.

18. Dywed y Cyngor ei fod yn awr "yn gweithio" tuag at sicrhau bydd y dogfennau'n gywir yn y Gymraeg erbyn 2019/2020. Wrth ddweud hyn mae Mr D yn gywir pan ddywed bod y Cyngor yn dangos difaterwch tuag at y mater (paragraff 7 uchod). Yn wir, yn fy marn i, mae'n dangos diffyg parch tuag at aelodau'r cyhoedd a'r Gymraeg. Mae datrysiad cynnar yn gytundeb ffurfiol o dan y Ddeddf ond, wrth ymateb y Cyngor, rwyf o'r farn nad yw'r Cyngor wedi ei gymryd o ddifrif neu mae yna ddiffyg dealltwriaeth o natur y cytundeb.

19. Yn hanes fy swyddfa dim ond nifer bach o adroddiadau o dan a22 o'r Ddeddf sydd wedi'i rhyddhau. Nid ar chwarae bach yr wyf wedi ystyried adroddiad o'r fath yn y mater hwn. Serch hynny, o ddarllen atebion y Cyngor mae'n ymddangos i mi nad yw'n deall pwysigrwydd cytuno i ddatrysiad o dan a3, fel y cytunwyd iddo yn Hydref 2017. Gaf i yn gyntaf atgoffa'r Cyngor nad fy swyddogaeth i ydyw sicrhau cydymffurfio gyda Safonau'r Gymraeg (o dan y Mesur) - swyddogaeth Comisiynydd y Gymraeg yw hynny. Drwy'r ymateb mae'r Cyngor yn sôn am barodrwydd i sicrhau cydymffurfio â'r Safonau ac nad yw'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol yn fwriadol. Yn y bôn, nid fy mherswadio i sydd angen ar gyfer hynny; mater i'r Comisiynydd ydyw, a'i phwerau hi, i benderfynu os oes cydymffurfiaeth â'r Mesur ai peidio. Fy swyddogaeth i yw delio â chwynion o gamweinyddu o dan y Ddeddf. Mae methiant y Cyngor yn yr achos hwn yn achos o gamweinyddu yn ogystal â methiant i gydymffurfio â'r Mesur. Fe all fethiant i ddilyn y gyfraith hefyd fod yn achos o gamweinyddu.

20. Wrth ddod i benderfyniad i gyhoeddi'r adroddiad hwn, rwyf wedi cymryd fewn i ystyriaeth cyhyd mae'r Cyngor wedi methu a delio gyda chwynion dilys Mr D (ers 2014) ynghyd â'r methiant llwyr i weithredu'r argymell a gytunwyd llynedd. Yn y llythyr ymddiheuriad at Mr D yn 2017, dywed y Cyngor yn glir bod ganddo reolaeth dros y wybodaeth i'w

gynnwys yn yr Hysbysiad (paragraff 6 uchod). Derbyniaf mai dim ond unwaith y flwyddyn, yn ymarferol, ac yn ariannol, y gall newidiadau o'r fath eu gwneud. Serch hynny, rhoddwyd sicrwydd personol y Rheolwr y byddai'r ddogfen yn cael ei chywiro. Mae'n amlwg nad iddo gyflawni hyn er roedd fewn ei allu i'w weithredu drwy ddanfôn y ddogfen at bartneriaid cyfieithu'r Cyngor a'i chyflwyno wedyn ar gyfer argraffu.

21. Yn y cyswllt uchod, gallaf ddeall pam for Mr D yn teimlo bod y Cyngor yn meddwl mai mater dibwys oedd ei gŵyn. Ychwanegaf fy mod i'n teimlo hefyd bod y Cyngor yn meddwl mai osgoi ymchwiliad yn unig oedd pwrpas y cytundeb gyda mi yn 2017. Yn ei holl ymateb (yn y fersiwn Saesneg a Chymraeg a ddanfônwyd ataf) rwy'n siomedig nad yw'r Cyngor unwaith wedi ymddiheuro am ddiffyg cydymffurfio â'r cytundeb ffurfiol a wnaethpwyd rhyngom yn 2017. Nid yw'r Cyngor chwaith wedi gofyn imi gyfleu ymddiheuriad ar ei ran i Mr D am ei holl drafferth dros y blynyddoedd yn cwyno, na'r anghyfiawnder ychwanegol mae dod ataf eto wedi peri iddo. Nid yw hyn yn dderbyniol. Wrth gynnig sylwadau ar gopi o ddrafft o'r adroddiad yma (a rannwyd gyda'r Cyngor ymlaen llaw) dywedodd "Nid oedd yn fwriad gan y Cyngor ymddangos yn ddi-hid neu'n amharchus tuag at y cyhoedd na'r Gymraeg." Felly, roedd yn ymddiheuro os mai dyna sut y cafodd ei ddadansoddi.

Argymhellion Pellach

22. Rwyf yn falch o nodi bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, wrth gyflwyno sylwadau ar fersiwn drafft yr adroddiad hwn, wedi cytuno i weithredu'r argymhellion pellach isod, oddi fewn yr amser penodedig:

- (a) Danfôn ymddiheuriad ysgrifenedig eto at Mr D am yr oedi parhaus i gywiro'r gwallau ieithyddol yn y ddogfen Treth Cyngor (o fewn un mis).
- (b) Cynnig iawndal o £100 iddo am yr anghyfiawnder achoswyd iddo ac am ei drafferth wrth orfod codi'r mater eto gyda fi (o fewn un mis).

- (c) Creu proses ffurfiol ac ysgrifenedig ynghylch y weithdrefn mae'r Cyngor wedi datgan wrthyf sydd yn ddefnydd ganddo wrth gynhyrchu'r Hysbysiad blynyddol (o fewn tri mis)


- (ch) Sicrhad Prif Weithredwr y Cyngor ataf yn ysgrifenedig (o fewn dau fis) y bydd holl ddogfennau'r Cyngor ynghylch Treth Cyngor, a Budd-daliadau Tai, yn cael eu gyrru at bartneriaid cyfieithu'r Cyngor i'w hadolygu (a chywiro fel bod angen). Dylid cwblhau'r dasg cyn eu cyflwyno i'r systemau meddalwedd ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf (2019/2020) mewn perthynas â'r Dreth Cyngor, ac erbyn y flwyddyn wedyn (2020/2021) ar gyfer Budd-daliadau Tai.

- (d) Yn y cyfamser, creu Hysbysiad unigol cywir (fel y gwnaethpwyd ar gyfer Mr D) i unrhyw unigolyn arall sydd yn gofyn amdano yn y Gymraeg (fel y bydd angen, yn ôl y gofyn, cyn rhydau'r Hysbysiad newydd ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf).



Nick Bennett
Ombwdsmon

9 Gorffenaaf 2018



Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ

Ffôn: 01656 641150

Ffacs: 01656 641199

Ebost: holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk

Dilynwch ni ar Twitter: [@Ombwdsmon](https://twitter.com/Ombwdsmon)